

'AMSER DYN' – GWYN THOMAS

Cymeriadau: Geraint – 8 oed , John – 8 oed

[Cerddoriaeth agoriadol - Y ddau yn chwarae cowbois yn y cae]

Rhan 1

- John: S1 Fi i fod yn cowboi.
- Geraint: Boi ddoe, boi heddi, S2 ti yw'r unig foi yn y gêm 'ma. Pam na gaf i fod yn foi weithie?
- John: Pwy alwodd gynta?
- Geraint: Dyw hwnna ddim yn cyfri.
- John: Sut ydyn ni'n mynd i wybod pa un ydyn ni te?
- Geraint: Os wyt ti'n foi un tro, rhaid i ti fod yn ddyn drwg dro arall.
- John: Wyt ti 'di bod yn sôn am hyn wrth dy fam?
- Geraint: Does dim pwynt i ti ddechre cwympto mas, fi sy'n mynd i fod yn foi heddi neu dydw i ddim yn dod i chware.
- John: Pwy ddywedodd gynta?
- Geraint: Doedd 'na neb ond ti'n gwbod ein bod ni'n mynd i chware cowbois. Fy nhro i yw hi heddi i fod yn foi.
- John: Y dyn drwg wyt ti.
- Geraint: Nage, ti yw e. Ro'n i'n ddyn drwg ddoe, dwi wedi blino bod yn ddyn drwg.
- John: (yn meddwl) Reit, fi'n gwybod. Gei di fod yn Geronimo!
- Geraint: Gei di fod yn Geronimo. Fi yw'r boi.
- John: Ond do'dd Geronimo ddim yn ddyn drwg.
- Geraint: Pam ei fod e'n cal crasfa ymhob ffilm te?! Dynion drwg sy'n cal crasfa. Mi ges i

grasfa ddo. Sai'n moin crasfa arall heddi.

John: O! (saib) Olreit te! Ond cofia mai fi weiddodd gynta.

Geraint: Ti yw'r dyn drwg.

Rhan 2

John: [yn saethu] C-ch

Geraint: Missed [gwyro'n isel er mwyn osgoi'r bwledi]

John: [Yn dal i saethu, codi i saethu. Geraint yn codi hefyd} C-ch, C-ch. Ti di cal hi.

Geraint: Dim ond yn fy ysgwydd. [Mae'n cuddio y tu ôl i'w garreg ac yn actio ei fod wedi brifo.]

John: Yn dy ben. [Codi i ddadlau] Yn dy ben.

Geraint: Yn fy ysgwydd i. [Codi'n sydyn a saethu] C-ch, C- ch, C-ch. Fi di cal ti.

John: O'n i ddim yn barod.

Geraint: [Gan weiddi o'r tu ôl i'r garreg] Wel, ti di cal hi beth bynnag.

John: T-s-s-s-s. [Yn dynwared cymryd moddion] Fi di ca'l moddion.

Geraint: Pwy roiodd e i ti?

John: Fi'n hunan.

Geraint: Ti'n gwbod yn iawn na chei di ddim rhoi moddion i ti dy hunan.

John: O! Wel... 'Yn geffyl i roiodd e i fi te!

Geraint: Dim ond un waith gei di foddion gan geffyl, reit!

John: O.k. C-ch. C-ch.

Geraint: C-ch. C- ch. C-ch.

John: C-ch.

Geraint: C-ch. [Mae John yn digwydd bod yn y golwg] Ti di chal hi am byth nawr.

John: 'Sda ti ddim bwlets. Chwech sy' mewn gwn.

Geraint: Ma' da fi ddau wn!

John: Nes di ddim dweud hynny!

Rhan 3

[Y ddau yn dod i ganol y llwyfan. Dynwared cowbois yn cael ffeit ac yn cael ergydion – POW! CLATS! ond yn sydyn mae Geraint yn taro clust John mewn camgymeriad. Mae John yn amlwg mewn poen]

John: O!!! y'n nghlust ddrwg i!

Geraint: Yffach, sori mêt. Odi e'n brifo?

John: Wrth gwrs 'i fod e'n brifo!

Geraint: O'n i ddim yn trio onest. Gwranda, os ydyn ni dal yn ffrindie, gei di fod yn foi.

John: *[Saib]* Olreit te. *[Saib]* Wedi'r cwbl, fi wedodd gynta!

[Mae Geraint yn rhoi ei fraich am ysgwydd John]

Geraint: Ffrindie?

John: Ffrindie!

[Cerddoriaeth: Creu symudiadau sy'n cyfleu perthynas gyfrinachol rhwng y ddau.]

'HI YW FY FFRIND' – BETHAN GWANAS

Cymeriadau: Non a Nia – dwy ffrind 10 oed.

Rhan 1

[Cerddoriaeth agoriadol - Non yn rhuthro mewn at 'i ffrind wedi cyffroi]

NON: Ti'n gwbod be?

NIA: Be?

NON: Neithiwr, weles i ffilm Cowbois ac Indians, lle'r oedd y cowboi a'r Indian 'ma wedi gwneud i gledr eu llaw waedu ac wedyn mi wnaeth y ddau ysgwyd llaw yn dynn.

Oedden nhw'n *blood brothers* wedyn.

(saib)

NIA: Gethon nhw ddolur?

NON: Sai'n credu. Gad i ni wneud e.

NIA: Be? Nawr?

NON: Ie. Mae dy gyllell di da ti yn dyw hi?

(Nia yn tynnu'r gyllell o'i phoced ac yn agor y llafn)

NIA: Odi.

NON: Dere â dy law yma, te.

NIA: Na, fi moin i ti neud e gynta

NON: Be? Oes ofn arnot ti?

NIA: Nag oes, ond dyle ti neud e gynta.

(Mae Non yn gosod llafn y gyllell yn erbyn cledr ei llaw)

NIA: Be sy'n bod? Oes ofn arnot ti?

NON: Sai'n gwbod pa mor ddwfn i dorri.

NIA: Gwna damed bach i ddechrau, ok?

Rhan 2

(Non yn pwyso ar y llafn ac yn dechrau hollti'r croen yn araf)

NIA: So fe'n gwaedu...

NON: Odi mae fe...drycha

NIA: Ddim lot.

NON: Be? Ti moin i fi neud iddo fe saethu mas fel y ffynnon na yn parc y dre neu
rwbeth? Drycha, os na i wasgu'r croen fel 'na...ma fe'n gwaedu mwy, iawn?

NIA: Gest ti ddolur?

NON: Naddo. Reit ti moyn neud e dy hun, neu ti moyn i fi neud e?

NIA: 'Na i neud e'n hunan.

(Nia yn cymryd cyllell a'i gosod yn erbyn ei llaw)

NON: Dere mlaen...

NIA: Fi methu, fi'n crynu. Wi ofn neud zig-zag

NON: Ti moin i fi neud e te?

NIA: Os ti'n addo nad wyt ti'n mynd i roi dolur i fi.

NON: Wna i'n ngore. Dere mlaen...

(Non yn gafael yn ei llaw, gosod blaen y llafn yn y canol a phwyso)

NIA: AAAAAAW! *(Nia'n tynnu ei llaw i ffwrdd yn sydyn)* Oedd hwnna'n rhoi dolur
Non!

NON: O! Drycha sdim byd 'na!

NIA: Drycha be ti di neud. Wi'n gwaedu fel mochyn!

NON: Ti symudodd dy law! Dal dy law lan! Oes da ti dishw?

NIA: *(yn ddagreuol)* Lan yn llawes. Dere gloi, wi'n mynd i waedu i
farwoleth...

(Non yn rhoi tishw dros y clwyf)

Aw! Be ti'n neud?

NON: Stopio fe waedu. Be ti'n feddwl?

NIA: Mae ofn arna i. Non, sai moin marw.

NON: So ti'n mynd i siŵr, a ta beth sa i'n mynd i adael i ti farw. Ni'n *blood sisters* nawr
a ta beth ma fe'n cymryd oes i waedu mochyn.

NIA: Be sy da hynny i neud â fi. Fi'n lot llai na mochyn!

NON: Drycha, jest dal fy llaw i'n dynn. 'Na ti.

Rhan 3

(Y ddwy'n dal eu dwylo)

NIA: *(yn wan)* Ti'n meddwl ddylen ni ddweud rwbeth...tyngu llw neu rwbeth?

NON: O ie, dylen. 'Da'n gilydd te.

NIA a NON Dyma Non y Wern a Nia Tynclawdd yn cymysgu ein gwa'd i ddangos ein bod o hyn mas, ac am byth bythoedd yn *blood sisters*, ac y byddwn ni'n stico da'n gilydd drwy ddŵr a tân am byth!

NON: Byth bythoedd!

NIA: Amen

[y ddwy yn chwerthin dros y lle wrth eu boddau!.]

[Cerddoriaeth: - creu symudiadau.]